



Technoleg Iechyd Cymru Health Technology Wales

Dyddiad: 1 Mawrth 2019
Cyfeirnod: Galwad Pwnc Agored
HTW
Rhif ffôn: 02920 468947
E-bost:
HealthTechnology@wales.nhs.uk

Annwyl Gydweithiwr

Technoleg Iechyd Cymru (HTW) – Galwad Pwnc Agored

Mae technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau yn cwmpasu ystod eang o ymyriadau gofal iechyd, sy'n amrywio o ddyfeisiau a phroffion diagnostig i newidiadau mewn llwybrau triniaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae mwy na 500,000 o ddyfeisiau meddygol ar y farchnad, gyda gwariant blynyddol o £11 biliwn yn y Deyrnas Unedig ar gyfer dyfeisiau meddygol yn unig.

Mae HTW wedi cael ei sefydlu i gefnogi dull strategol, cenedlaethol o ran canfod arfarnu a mabwysiadu (gan gynnwys dadfuddsoddi) technolegau iechyd nad ydynt yn feddyginiaethau i leoliadau iechyd a gofal yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys dyfeisiau meddygol, gweithdrefnau llawfeddygol ac ystod o ymyriadau eraill e.e. therapiau seicolegol ac adsefydlu.

Bydd HTW yn darparu arweiniad annibynnol, seiliedig ar dystiolaeth, ar effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd technolegau nad ydynt yn feddyginiaethau, i roi cymorth i GIG Cymru o ran mabwysiadu penderfyniadau ynghylch technolegau iechyd.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio ein rhaglen waith ar gyfer 2019, ac rydym yn ysgrifennu i holi a oes unrhyw feysydd lle y credwch y gallai HTW eich cefnogi chi? Mae ystod o gynhyrchion adolygu tystiolaeth ar gael, sy'n amrywio o asesiadau technoleg iechyd byr i asesiadau llawn. Mae engreifftiau o adolygiadau a chanllawiau tystiolaeth HTW ar gael ar wefan HTW.

Ar ôl adolygu'r dystiolaeth, bydd HTW yn cyhoeddi Canllawiau i GIG Cymru, ac yn crynhoi effeithiolrwydd clinigol a chost-effeithiolrwydd y dechnoleg, ochr yn ochr â gwybodaeth gyd-destunol berthnasol ac unrhyw ofyniad am ymchwil pellach i lywio'r broses o wneud penderfyniad.

Byddwn yn annog yn arbennig, i bynciau gael eu hatgyfeirio sy'n adlewyrchu meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru a thechnolegau sydd yn cael eu defnyddio mewn lleoliadau gofal cymdeithasol.

Os hoffech chi gynnig pwnc i HTW, cwblhewch ac anfonwch y Ffurflen Atgyfeirio Pwnc trwy ein gwefan erbyn **30 Ebrill 2019**.

Fel arall, os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth, neu drafodaeth anffurfiol ynghylch p'un a allai HTW eich cynorthwyo chi i ystyried technoleg, e-bostiwch HealthTechnology@wales.nhs.uk. Gall ymchwilydd HTW weithio gyda chi i ddrafftio ffurflen atgyfeirio pwnc, os ydych chi'n meddwl y byddai hynny'n ddefnyddiol.

Yr eiddoch yn gywir,

Dr Peter Groves
Cadeirydd, Technoleg Iechyd Cymru

Dr Susan Myles
Cyfarwyddwr, Technoleg Iechyd Cymru